

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol


Rhif: 25/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2012



Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru - 2012

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Claire Peate

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth
Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Krishan Kawol

Ymchwil Twristiaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 01443 845750

E-bost: krishan.kawol@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-0-7504-9478-6

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Tabl cynnwys

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau	1
Crynodeb Gweithredol	3
1 Cyflwyniad ac amcanion	4
2 Methodoleg.....	6
3 Y deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl (yn ôl maint yr ymweliadau)	8
4 Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2012/2011	9
5 Ymweliadau 2012.....	17
6 Gweithrediadau	22
7 Proffil ymwelwyr 2012.....	31
8 Atyniadau a ymatebodd yn 2012	33
Atodiad.....	39
Llythyr a holiadur yr arolwg	39

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a'r gweithredwyr yn y sector atyniadau a roddodd wybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno. Heb eu cymorth bob blwyddyn, ni fyddai'n bosibl casglu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / Ffigurau ymwelwyr heb fod ar gael

Mae'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi gyda phob ewyllys da ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan berchnogion yr atyniadau.

- Os amcangyfrifwyd ffigurau ymwelwyr gan weithredwyr, nodir hyn gyda seren (*) yn dilyn nifer yr ymweliadau yn y tablau yn 2012, ar ddiwedd yr adroddiad. Os oedd gan atyniad ffigurau amcangyfrifol yn 2012, tybir bod y ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd yn ffigurau amcangyfrifol.

Tâl Mynediad

Yn y rhestr o dablau, caiff tâl mynediad ei gynnwys yn y golofn 'mynediad'.

- Os oes gan atyniad dâl mynediad, nodir y tâl mynediad ar gyfer tymor prysur 2012. Os nad yw'n hysbys gadewir y tâl mynediad yn wag.

Talfyriadau

Rhanbarthau

M	Canolbarth Cymru
N	Gogledd Cymru
SE	De Ddwyrain Cymru
SW	De Orllewin Cymru

Categoriâu perchnogaeth

Cadw [†]	Cadw (Henebion Cymru)
G	Llywodraeth (Asiantaeth/ Cangen o'r Llywodraeth e.e. Awdurdod Parciau Cenedlaethol, Addysg, Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ac ati)
LA	Awdurdod Lleol
NT [†]	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
PO	Eiddo Preifat (Perchnogion unigol, sefydliad/ ymddiriedolaeth ac ati)

[†]Bydd atyniadau yn y categorïau perchnogaeth CADW neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond yn gallu cael eu rheoli gan sefydliadau o'r fath.

Categoriâu'r atyniadau twristiaeth

HP	Eiddo hanesyddol Cestyll, Caerau, Tai Hanesyddol, Palasau, Henebion, Safleoedd Archeolegol; Eiddo Hanesyddol Arall, Canolfannau Treftadaeth, Mannau addoli
Theme	Parciau Hamdden, Parciau Thema
MAG	Amgueddfeydd a/neu Orielau Celf, Canolfannau Gwyddoniaeth, Canolfannau Technoleg
Ind	Atyniad diwydiannol / crefft
CP	Parc Gwledig, gardd, atyniad naturiol arall
WL	Atyniad bywyd gwyllt
R/T	Rheilffordd/ tramffordd

Talfyriadau Cyflogeion

FTP	Parhaol llawn amser
PTP	Parhaol rhan amser
FTP	Tymhorol llawn amser
PTS	Tymhorol rhan amser
UV	Gwirfoddolwr di-dâl
UVP	Gwirfoddolwr di-dâl parhaol
UVS	Gwirfoddolwr di-dâl tymhorol

Drwy gydol yr adroddiad, bydd samplau o ddeg neu lai yn cael eu nodi â seren (*) i nodi bod angen cymryd gofal wrth edrych ar y canlyniadau.

Crynodeb Gweithredol

Ymweliadau 2011-2012

1. **Mae ymweliadau ag atyniadau twristiaeth rhwng 2011 a 2012 wedi lleihau 5.3%** ymhlith samplau wedi'u paru ar draws y ddwy flynedd. Ymhlith yr 157 o atyniadau yr ymwelwyd â nhw daeth nifer yr ymwelwyr i gyfanswm o bron 11.5 miliwn.
2. **Mae ymweliadau ag atyniadau am ddim wedi aros yn eithaf cyson** gyda lleihad o 0.5% yn unig. Mae ymweliadau ag atyniadau y talwyd amdanynt fodd bynnag wedi lleihau 10.2% ar gyfartaledd.
3. **Mae'r lleihad mewn niferoedd ymwelwyr i atyniadau y talwyd amdanynt yn fwyaf amlwg yn Ne Orllewin Cymru** a'r rhai o dan berchnogaeth Awdurdod Lleol.
4. **Yr atyniadau y talwyd amdanynt a dderbyniodd y nifer mwyaf o ymwelwyr yng Nghymru yw'r LC** gyda bron 740,000 o ymweliadau yn 2012.

Refeniw

5. **Mae'r tâl mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion yn £6.92 (i fyny 4.6% ers 2011)** tra bod y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer plentyn yn £4.07 (cynnydd o 3.6%). Mae'r rhain yn godiadau uwch na chwyddiant.
6. **Ymhlith pob atyniad (mynediad â thâl ac am ddim) mae'r refeniw cyfartalog yn £6.51:** £2.93 ymhlith atyniadau am ddim a £9.26 ymhlith atyniadau â thâl.

Cyflogaeth

7. **Mae gwirfoddolwyr di-dâl yn cyfrif am bron 44%** o'r gweithlu mewn atyniadau yn 2012. Mae staff llawn amser parhaol yn cyfrif am 23%.

1 Cyflwyniad ac amcanion

1.1 Cefndir

Mae Croeso Cymru wedi bod yn y cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gorchwyl y gwaith ymchwil yw:

- pennu ac adrodd ar nifer yr ymwelwyr ag atyniadau ledled Cymru
- dadansoddi data a gasglwyd am nifer yr ymwelwyr i nodi tueddiadau cyfredol
- darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata a geir yn yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth gan gynnwys ffigurau ymwelwyr, gweithredoedd, cyllid, refeniw, marchnata ac adnoddau dynol
- dadansoddi data yn ôl categorïau atyniadau, pedwar rhanbarth economaidd Cymru a pholisïau tâl mynediad.

1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth

Mae'r ymchwil hwn yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth¹ a gytunwyd gan y Pedwar Bwrdd Twristiaeth Cenedlaethol yn 2001:

"atyniad lle mae'n ymarferol codi tâl mynediad ar gyfer y perwyl o weld pethau'n unig. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith barhaol wedi'i sefydlu, gyda'i brif bwrpas i ganiatáu mynediad i adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn allfa manwerthu yn bennaf neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm. Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn un busnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel y gall ateb cwestiynau economaidd ar refeniw, cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn refeniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr."

1.3 Amcanion

Diben yr arolwg hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau diwydiant a sefydliadau'r sector cyhoeddus a dosbarthu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

¹ Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar Ganolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig" a fyddai'n ei heithrio o'r gwaith ymchwil hwn. Nid yw'r lleoliad yn syrthio'n ddestlus i'r diffiniad uchod ychwaith am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2012

Mae economi a hinsawdd y DU yn ffactorau allweddol wrth ystyried twristiaeth ddomestig a bydd eu heffaith yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau yn yr adroddiad hwn.

Gan edrych yn gyntaf ar y cefndir economaidd, yn ystod 2012 roedd y DU wedi mynd yn ôl i ddirwasgiad eto yn ystod rhan gynnar y flwyddyn, yn dod allan o ddirwasgiad erbyn pedwerydd chwarter ac yn methu gan ychydig fynd i drydydd dirwasgiad yn gynnar yn 2013. Roedd materion a oedd yn berthnasol yn 2011 (prisiau tanwydd uchel, cynyddiadau yng nghostau byw yn gyffredinol) yn aros yn berthnasol yn 2012. Yn yr un modd â 2011, roedd y cyfryngau yn parhau i adrodd am gynnydd yn nifer y gwyliau gartref, neu *staycation* - hynny yw, ymwelwyr yn dewis mynd ar wyliau yn y DU yn hytrach na thramor oherwydd rhesymau ariannol. Mae'n bosibl bod yr effaith hwn wedi cyfrannu mewn ffordd positif at niferoedd yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghymru (a'r DU wrth gwrs). Fodd bynnag, gallai pwysau ar incwm gwario cartrefi leddfu ar yr effaith positif. Mae'n bosibl bod atyniadau â thâl wedi gweld effaith hyn, ac atyniadau am ddim wedi elwa o bosibl.

Gan droi at yr hinsawdd, yn ôl y Swyddfa Dywydd, 2012 oedd y flwyddyn wlypaf ond un a gofnodwyd gyda llifogydd mewn llawer o rannau o'r wlad. Yn y cyfryngau cyfeiriwyd at y misoedd twristiaeth allweddol fel "yr haf coll" oherwydd y tymereddau isel a'r glawiad uchel.

2 Methodoleg

2.1 Cynnal y gwaith ymchwil

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil mewn dau gam, yn dibynnu ar p'un a oedd gan yr atyniad amseroedd agor tymhorol (cynnar) neu p'un a oedd ar agor drwy gydol y flwyddyn (hwyr). Ar gyfer atyniadau cynnar anfonwyd y deunydd drwy'r post ym mis Hydref 2012, ac anfonwyd nodyn atgoffa at y rhai nad oeddent wedi ymateb bythefnos yn ddiweddarach. Ar gyfer atyniadau hwyr, anfonwyd y deunydd ym mis Ionawr 2013, ac anfonwyd nodyn atgoffa at y rhai nad oeddent wedi ymateb bythefnos yn ddiweddarach.

Anfonwyd y deunyddiau arolwg yn y dewis iaith naill ai dros yr e-bost neu yn y post. Os gofynnwyd i'r gwaith ymchwil gael ei anfon yn y post, darparwyd amlen ragdaledig er mwyn i'r ymatebydd ddychwelyd yr arolwg gorffenedig.

Derbyniwyd yr ymatebion olaf o'r gwaith maes ym mis Mawrth, a chofnodwyd data'r ymatebion wedi hynny.

Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol er mwyn sicrhau cymaroldeb a'n galluogi i fonitro'r tueddiadau.

2.2 Dosbarthiad a chyfradd ymateb yr arolwg

Dosbarthwyd yr arolwg i gyfanswm o 432 o atyniadau y credwyd eu bod yn gweddu i'r diffiniad o atyniad twristiaeth: lleihad o 46 o atyniadau ers 2011. Mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd flaenorol i'w gweld yn Nhabl 2.1 isod:

Tabl 2.1 Cyfradd ymateb

	2012 Gwirioneddol (canran)	2011 Gwirioneddol (canran)	2010 Gwirioneddol (canran)
Cyfanswm yr atyniadau a dargedwyd	432	478	507
Atyniadau a gwblhaodd yr arolwg a nodi ffigurau ymwelwyr ar gyfer y flwyddyn honno	190 (44%)	216 (45%)	219 (43%)
Atyniadau nad oedd modd iddynt nodi ffigurau ymwelwyr	25 (6%)	29 (6%)	28 (6%)
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	215 (50%)	245 (51%)	247 (49%)

Felly, er bod yr ymateb i'r arolwg eleni yn 50%, y gyfran a ddarparodd ffigurau ymwelwyr oedd 44%.

At hynny, er mwyn canfod dibynadwyedd y ffigurau ymwelwyr a ddarparwyd, yn 2012 dywedodd cyfanswm o 125 o weithredwyr pa ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfrifo'r ffigurau ymwelwyr hyn. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2 isod. Mae'r ffigurau yn dod i uwch na 100% am fod rhai atyniadau yn sôn am ddulliau lluosol.

Tabl 2.2 Dull o gofnodi niferoedd ymwelwyr

Cyfanswm y sampl	Niferoedd gwirioneddol 125	%
Gwerthiant tocynnau a/neu werthiant archeb grŵp	50	40.0%
Dull o gyfrif niferoedd â llaw	41	32.8%
Dull mecanyddol neu electronig o gyfrif	30	24.0%
Amcangyfrif a wnaed ar sail cyfrif sampl	7	5.6%
Cyfrif sampl	0	0%
Arall*	17	12.8%

*Mae dulliau eraill o gyfrif niferoedd ymwelwyr yn cynnwys cerigos mewn bowlenni a nifer y bobl a gyfrifwyd wrth ddod drwy'r fynedfa.

3 Y deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl (yn ôl maint yr ymweliadau)

3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl

Tabl 3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl a ymatebodd yn 2012

ENW	RHANBARTH	CATEGORI	PERCHENNOG	ARFORDIROL/ GWLEDIG/ TREFOL	YMWELIADAU 2012	YMWELIADAU 2011	2012/2011	£ OEDOLYN
Yr LC	SW	Theme	PO	C	736,949	708,180	4.1%	
Parc Gwledig Pembre	SW	CP	LA	C	388,416	* 398,115	-2.4%	
Castell Caerdydd	SE	HP	LA	U	251,860			
Portmeirion	M	MAG	PO	R	195,276	234,098	-16.6%	£10.00
Caernarfon	N	HP	Cadw	C	176,454	196,944	-10.4%	
Castell Conwy Tramffordd y Gogarth	N	HP	Cadw	C	162,665	178,639	-8.9%	
	N	RT	LA	C	153,004			£5.90
Gardd Bodnant	N	CP	NT	R	152,439	170,929	-10.8%	
Erddig	N	HP	NT	R	150,818	168,281	-10.4%	
Techniquet	SE	MAG	PO	U	148,561	167,849	-11.5%	£7.00

3.2 Y deg atyniad uchaf am ddim

Tabl 3.2 Y deg atyniad uchaf am ddim a ymatebodd yn 2012

ENW	RHANBARTH	CATEGORI	PERCHENNOG	ARFORDIROL/ GWLEDIG/ TREFOL	YMWELIADAU 2012	YMWELIADAU 2011	2012/2011
Canolfan Mileniwm Cymru	SE	MAG	PO	U	1,144,628	* 1,046,958	9.3%
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	SE	MAG	G	U	615,855	610,074	0.9%
Amgueddfa Castell Cyfarthfa	SE	MAG	LA	U	545,006		
Amgueddfa Cymru	SE	MAG	G	U	459,806	411,730	11.7%
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau	SW	MAG	G	U	267,362	256,471	4.2%
Eglwys Gadeiriol Tyddewi	SW	HP	PO	C	258,000	* 262,000	-1.5%
Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston Coedwig a Chanolfan Ymwelwyr Cwmcaran	SE	CP	LA	U	250,000	230,000	-8.7%
	SE	CP	PO	R	203,662	192,243	5.9%
Oriel Plas Glyn-Y-Weddw	NW	MAG	PO	U	180,548	121,870	48.1%
Prosiect Amgueddfa Caerdydd	SE	MAG	LA	U	167,413	* 270,000	-38.0%

4 Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2012/2011

Mae'r bennod hon yn dadansoddi tueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru. Mae'n edrych ar yr atyniadau hynny a ymatebodd yn y ddwy flwyddyn 2012 a 2011.

4.1 Cymariaethau cyffredinol

Tabl 4.1 Cymharu ymweliadau blynyddol cyffredinol 2012/2011

Darparodd 157 o atyniadau ffigurau cyfanswm yr ymweliadau ar gyfer y ddwy flynedd 2012 a 2011.

Sampl	Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011	Cynnydd/ lleihad
157	11,436,129	12,080,601	-5.3%

Yn y blynyddoedd 2011 a 2012 gollyngodd niferoedd ymwelwyr 5.3% ar gyfartaledd ymhlith atyniadau a ymatebodd yn y ddwy flynedd.

Tabl 4.2 Cymharu ymweliadau blynyddol 2012/2011 ar gyfer atyniadau am ddim ac â thâl

Sampl	Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011	Cynnydd/ lleihad
Am ddim	6,036,233	6,067,381	-0.5%
Â thâl	5,399,863	6,013,220	-10.2%
Cyfanswm	11,436,129	12,080,601	-5.3%

Tra bod ymweliadau ag atyniadau wedi aros yn gyson rhwng 2011 a 2012 mae'r lleihad yn fwy clir mewn ymweliadau ag atyniadau y talwyd amdanynt: lleihad o 10.2%

Tabl 4.3 Cymharu ymweliadau blynyddol 2012/2011 yn ôl rhanbarth

Sampl		Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011	Cynnydd/ lleihad
Canolbarth	27	939,055	1,066,630	-9.1%
Gogledd	41	2,684,627	2,888,793	-7.1%
De Ddwyrain	41	4,466,420	4,456,879	+0.2%
De Orllewin	48	3,316,027	3,668,299	-9.6%
Cyfanswm	157	11,436,129	12,080,601	-5.3%

Gwelodd De Orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru'r lleihad mwyaf yn niferoedd yr ymweliadau, gan dderbyn tua 10% yn llai o ymweliadau yn 2012 o'i gymharu â 2011. Gwelodd atyniadau Gogledd Cymru gwmp hfyd yn nifer yr ymweliadau (-7.1%), tra yn Ne Ddwyrain Cymru, arhosodd nifer yr ymweliadau ag atyniadau yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.

4.4 Cymharu ymweliadau blynyddol 2012/2011 yn ôl categori

Sampl		Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011	Cynnydd/ lleihad
Eiddo hanesyddol	49	2,349,666	2,500,076	-6.0%
Amgueddfa / oriel gelf	48	4,342,937	4,296,510	+1.1%
Atyniad diwydiannol neu grefft	7*	194,189	191,366	+1.5%
Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	37	3,150,608	3,648,096	-13.6%
Atyniad bywyd gwyllt	8*	289,601	333,176	-13.1%
Atyniad thema, parc / canolfan hamdden **	**	**	**	**
Rheilffordd/ tramffordd	7*	372,179	403,197	-7.7%
Cyfanswm	157	11,436,129	12,080,601	-5.3%

*rhybudd: sail isel

**maint y sampl yn rhy fach a byddai'n torri ar gyfrinachedd

Mae ymweliadau ag Amgueddfeydd ac orielau wedi cynyddu 1.1% ac ymweliadau ag atyniadau diwydiannol a chreffft wedi cynyddu 1.5% rhwng 2011 a 2012. Mae pob categori arall o atyniad wedi gweld lleihad yn niferoedd yr ymwelwyr: yn fwy nodedig y rhai yn y categori parc gwledig, gardd, naturiol arall (-13.6%) ac atyniad bywyd gwyllt (-13.1%).

4.5 Cymharu ymweliadau blynyddol 2012/2011 yn ôl perchenogaeth

	Sampl	Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011	Cynnydd/ lleihad
Cadw	26	1,053,907	1,111,047	-6.8%
Llywodraeth	7*	1,739,855	1,677,275	+3.7%
Awdurdod Lleol	45	2,959,963	3,501,979	-15.5%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	17	1,042,790	1,140,540	-8.6%
Perchennog preifat / Ymddiriedolaeth	62	4,639,614	4,629,760	+0.2%
Cyfanswm	157	11,436,129	12,080,601	-5.3%

*rhybudd: sail isel

Mae ymweliadau ag atyniadau a reolir gan y Llywodraeth wedi codi 3.7% rhwng 2011 a 2012. Mae ymweliadau ag atyniadau a reolir gan berchnogion preifat ac ymddiriedolaethau wedi aros yn weddol gyson gyda chynnydd o dim ond 0.2%. Mae pob categori arall wedi profi lleihadau yn niferoedd ymwelwyr: yn fwy nodedig y rhai o dan berchenogaeth Awdurdodau Lleol (gyda lleihad o 15.5%).


4.2 Cymharu ymweliadau misol 2012/2011

Darparodd 142 atyniad ymwelwyr ddadansoddiad misol o ymweliadau â'u gweithrediad yn 2012 ac yn 2011.

Tabl 4.6 Dosbarthiad misol o ymweliadau 2012/2011

	Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011
Ionawr	4.1%	3.8%
Chwefror	5.7%	4.9%
Mawrth	6.7%	6.1%
Ebrill	9.6%	11.2%
Mai	9.0%	9.5%
Mehefin	10.4%	10.2%
Gorffennaf	12.9%	12.8%
Awst	15.4%	15.9%
Medi	9.3%	8.5%
Hydref	7.7%	8.4%
Tachwedd	5.1%	4.5%
Rhagfyr	4.3%	4.2%

Ffigur 4.6a Siart o ddsbarthiad misol o ymweliadau 2012/2011 - CYFANSWM




Mae ffigurau 2012 yn dangos bod ffigurau ymwelwyr yn gymharol gyson ar draws y flwyddyn er bod y misoedd allweddol Gorffennaf ac Awst yn dal i brofi'r niferoedd mwyaf o ymwelwyr.

Mae atyniadau am ddim yn dangos dosbarthiad mwy cytbwys o ymweliadau - yn enwedig yn 2012 - o'i gymharu â 2011 - gweler Tabl 4.7 isod a Ffigur 4.7a drosodd.

Tabl 4.7 Dosbarthiad misol o ymweliadau 2012/2011 yn ôl mynediad

Sampl	Am ddim		Â thâl	
	2012	2011	2012	2011
Ionawr	4.7%	4.5%	3.5%	3.2%
Chwefror	7.1%	6.1%	4.2%	4.0%
Mawrth	7.8%	7.1%	5.5%	5.2%
Ebrill	9.0%	10.2%	10.2%	12.0%
Mai	8.7%	9.1%	9.2%	9.9%
Mehefin	9.8%	9.5%	11.0%	10.8%
Gorffennaf	12.0%	12.2%	13.8%	13.3%
Awst	13.6%	14.0%	17.4%	17.6%
Medi	9.0%	8.4%	9.6%	8.5%
Hydref	7.5%	8.6%	7.8%	8.3%
Tachwedd	6.0%	5.8%	4.1%	3.4%
Rhagfyr	4.8%	4.8%	3.7%	3.7%

Ffigur 4.7a Siart o ddosbarthiad misol o ymweliadau 2012/2011 yn ôl math o fynediad



4.3 Cymharu ymweliadau chwarterol 2012

Tabl 4.8 Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2012/2011

	Ymweliadau 2012	Ymweliadau 2011
Sampl	142	
Ion - Maw	16.5%	14.8%
Ebr - Meh	28.9%	30.9%
Gorff - Medi	37.5%	37.2%
Hyd - Rhag	17.0%	17.2%

Cafodd chwarter cyntaf 2012 gyfran ychydig yn uwch o ymwelwyr nag yn 2011 - gyda'r Pasg yn digwydd ym mis Ebrill ar draws y ddwy flwyddyn.

Tabl 4.9 Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2012/2011 yn ôl rhanbarth

Rhanbarth	Sampl	Dosbarthiad o ymweliadau 2012				Dosbarthiad o ymweliadau 2011				Cyfanswm yr ymweliadau	
		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ion - Rhag 12	Ion - Rhag 11
Canolbarth Cymru	26	9.8%	31.0%	45.7%	13.5%	9.4%	33.7%	43.3%	13.6%	967,130	1,064,288
Gogledd Cymru	39	12.2%	31.2%	41.4%	15.2%	10.7%	33.6%	40.8%	14.9%	2,732,590	2,876,283
De Ddwyrain Cymru	34	18.5%	27.7%	35.1%	18.7%	17.1%	28.7%	34.6%	18.7%	4,409,402	3,740,317
De Orllewin Cymru	43	19.8%	28.0%	34.8%	17.4%	17.7%	30.0%	34.8%	17.5%	2,867,973	3,183,719
Cyfanswm	142	16.5%	28.9%	37.5%	17.0%	14.8%	30.9%	37.2%	17.2%	10,977,095	10,864,607

Mae atyniadau canolbarth Cymru'n dangos y radd fwyaf o amrywiaeth ar draws y flwyddyn gyda bron 36 pwynt canran o wahaniaeth rhwng Ch1 a Ch3. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â De Orllewin Cymru gyda gwahaniaeth o 15 pwynt canran ar draws yr un chwarteri.

Adroddodd atyniadau Canolbarth a Gogledd Cymru gyfnodau brig uwch o ran niferoedd ymweliadau yn ystod Ch3 2012 (tua 40% o ymweliadau blynyddol) o'i gymharu â De Cymru(45% o ymweliadau blynyddol).

Tabl 4.10 Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2012/2011 yn ôl categori

Categori	Sampl	Dosbarthiad o ymweliadau 2012				Dosbarthiad o ymweliadau 2011				Cyfanswm yr ymweliadau	
		Ion - Maw	Ebr - Meh	Gorff - Medi	Hyd - Rhag	Ion - Maw	Ebr - Meh	Gorff - Medi	Hyd - Rhag	Ion - Rhag 12	Ion - Rhag 11
Eiddo hanesyddol	46	9.5%	32.5%	42.8%	15.2%	8.9%	33.1%	42.8%	15.2%	2,090,309	2,224,940
Amgueddfa neu oriel gelf	44	19.9%	26.2%	34.9%	19.0%	18.2%	27.3%	34.8%	19.7%	4,495,510	3,799,642
Atyniad diwydiannol neu grefft	6*	4.2%	31.2%	54.8%	9.8%	5.0%	34.8%	51.6%	8.5%	159,189	162,166
Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	31	17.2%	30.4%	36.3%	16.1%	14.8%	34.1%	35.1%	15.9%	2,860,903	3,261,306
Atyniad bywyd gwyllt	7*	15.7%	28.6%	44.8%	10.9%	12.0%	32.1%	41.9%	14.1%	262,061	305,176
Atyniad thema, parciau a chanolfannau hamdden	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Rheilffordd neu dramffordd	7*	2.9%	32.9%	50.7%	13.4%	2.6%	33.6%	50.6%	13.2%	372,174	403,197
Cyfanswm	142	16.5%	28.9%	37.5%	17.0%	14.8%	30.9%	37.2%	17.2%	10,977,095	10,864,607

*rhybudd: sail isel

Mae amgueddfeydd ac orielau'n parhau i fod yn ddeniadol drwy gydol y flwyddyn, ac er gwaethaf yr haf gwlypaf ond un wedi'i gofnodi, mae atyniadau awyr agored fel parciau bywyd gwyllt, parciau cefn gwlad a gerddi'n dangos dosbarthiadau ymwelwyr tebyg rhwng 2011 a 2012.

4.4 Cymharu tâl mynediad ar gyfer atyniadau â thâl

Tabl 4.11 Cymharu taliadau oedolion a phlant cyfartalog (fesul atyniad) 2012/2011

	2012	2011	Cynnydd/ lleihad
Sampl	33		
Tâl mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion	£6.92	£6.61	+4.6%
Pris mynediad cyfartalog ar gyfer plentyn	£4.07	£3.93	+3.6%

Yn y DU, roedd chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfartaledd yn 3.3% ar draws 2012. Mae'r codiad mewn prisiau mynediad felly'n godiadau uwch na chwyddiant mewn atyniadau yng Nghymru.

Tabl 4.12 Dosbarthiad tâl mynediad i oedolion yn ôl amrediad

	2012	2011
Sampl	33	
Llai na £1.00	6.1%	6.1%
£1.01 - £1.99	6.1%	6.1%
£2.00 - £2.99	9.1%	9.1%
£3.00 - £3.99	12.1%	12.1%
£4.00 - £4.99	12.1%	12.1%
£5.00 - £5.99	6.1%	9.1%
£6.00 - £6.99	15.2%	15.2%
£7.00 - £7.99	6.1%	3.0%
£8.00 neu fwy	27.3%	27.3%

Er ar y cyfan ni fu fawr o newid yn ystod y taliadau mynediad rhwng 2011 a 2012 ymhlith y sampl o 33 o atyniadau a gwblhaodd yr adran hon o'r arolwg, roedd lleihad yng nghanran yr atyniadau y talwyd amdanynt yn codi rhwng £5.00 - £5.99 (-3%), ond cynnydd yn y caran yn codi £7.00 - £7.99 (+3.1%). Bydd hyn yn cyfrannu at y cynnydd cyffredinol 'uwch na chwyddiant' a welwyd mewn taliadau mynediad yn 2012.

5 Ymweliadau 2012

Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o ddata ymweliadau ar gyfer 2012.

Noder: nid yw maint y sail bob amser yr un peth ac ni wnaeth pob ymatebwr gwblhau holl adrannau'r holiaduron. Mae'r rhai nad oeddent wedi cwblhau'r adrannau perthnasol wedi'u hepgor o'r tablau ond wedi'u cynnwys yn rhywle arall mewn adrannau y maent wedi'u cwblhau.

Tabl 5.1 Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl tâl mynediad

Tâl Mynediad	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012
Am ddim	81	7,114,154
Â thâl	109	6,181,381
Cyfanswm	190	13,295,535

Ymhlith yr atyniadau'n ymateb i'r arolwg, roedd ymweliadau ag atyniadau am ddim yn cyfrif am ychydig dros hanner (54%) o holl ymwelwyr.

Tabl 5.2 Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl tâl mynediad a rhanbarth

Rhanbarth	Mynediad am ddim			Mynediad â thâl			Pob atyniad		
	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%
Canolbarth Cymru	15	505,187	7	21	716,977	12	36	1,222,164	9
Gogledd Cymru	17	1,106,083	16	37	2,237,937	36	54	3,344,020	25
De Ddwyrain Cymru	26	4,211,268	59	19	1,090,175	18	45	5,301,443	40
De Orllewin Cymru	23	1,291,616	18	32	2,136,292	35	55	3,427,908	26
Cyfanswm	81	7,114,154	54	109	6,181,381	46	190	13,295,535	

Tra bod cyfran fwy o ymwelwyr i atyniadau y telir amdanynt yng Nghanolbarth, Gogledd a De Orllewin Cymru nag atyniadau am ddim, mae'r patrwm hwn i'r gwrthwyneb yn Ne Ddwyrain Cymru gyda chyfran lawer mwy o ymwelwyr i atyniadau am ddim.

Tabl 5.3 Cyfran rhanbarthau o atyniadau ac ymweliadau 2012

Rhanbarth	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Cyfweliadau cyfartalog fesul rhanbarth
Sampl	190		
Canolbarth Cymru	18.9%	9%	33,949
Gogledd Cymru	28.4%	25%	61,926
De Ddwyrain Cymru	23.7%	40%	117,810
De Orllewin Cymru	28.9%	26%	62,536
Cyfanswm		13,295,535	69,977

Mae nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul atyniad yn sefyll ar ychydig o dan 70,000 y flwyddyn yn 2012. Gan edrych yn rhanbarthol, tra bod gan Dde Ddwyrain Cymru ychydig o dan 24% o'r atyniadau mae'n denu 40% o'r holl ymweliadau.

Tabl 5.4 Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl tâl mynediad a chategori

Categori	Mynediad am ddim			Mynediad â thâl			Pob atyniad		
	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%
Eiddo hanesyddol	5*	352,199	5	47	2,255,519	36	54	607,718	5
Amgueddfa neu oriel gelf	44	4,529,212	64	18	523,171	8	62	5,052,383	38
Atyniad diwydiannol neu grefft	7*	166,980	2	6*	293,970	5	13	460,950	3
Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	20	1,917,467	27	23	1,627,492	26	43	3,544,959	27
Atyniad bywyd gwyllt	4*	131,596	2	6*	165,797	3	10	297,393	2
Atyniad thema, parc / canolfan hamdden	0	0	0	1**	-	-	1**	-	-
Rheilffordd neu dramffordd	1**	-	-	8*	578,486	9	9*	-	-
Cyfanswm	81	7,114,154	54	109	6,181,381	46	190	13,295,535	

*rhybudd: sail isel

**maint y sampl yn rhy fach a byddai'n torri ar gyfrinachedd

Ar draws pob categori o atyniad â thâl ac am ddim, mae gan amgueddfeydd ac orielau celf mynediad am ddim y gyfran uchaf o ymwelwyr, gydag ychydig dros draean (34%) o'r holl ymweliadau â'r atyniadau hyn yng Nghymru.

Tabl 5.5 Ymweliadau cyfartalog 2012 yn ôl categori

Categori	Sampl	Ymweliadau cyfartalog 2012
Eiddo hanesyddol	52	50,148
Amgueddfa neu oriel gelf	62	81,490
Atyniad diwydiannol neu grefft	13	35,458
Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	43	82,441
Atyniad bywyd gwylt	10	29,739
Atyniad thema, parc / canolfan hamdden	1*	736,949
Rheilffordd neu dramffordd	9*	66,131
Cyfanswm	190	69,977

*rhybudd: sail isel

Mae gan atyniadau bywyd gwylt y nifer lleiaf o ymweliadau, gydag ychydig o dan 30,000 ar gyfartaledd ar draws 2012. Mae hyn yn cymharu ag amgueddfeydd / orielau celf a pharciau gwledig / gerddi gyda thros 80,000 o ymweliadau yn ystod yr un cyfnod.

Tabl 5.6 Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl tâl mynediad a pherchenogaeth

Perchnogaeth	Mynediad am ddim		Mynediad â thâl		Pob atyniad	
	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012
Cadw	0	0	26	1,053,907	26	1,053,907
Llywodraeth	7*	1,739,855	0	0	7*	1,739,855
Awdurdod Lleol	32	2,425,260	20	1,588,833	52	4,014,093
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	1*	4,411	16	1,038,379	17	1,042,790
Perchennog preifat neu ymddiriedolaeth	41	2,944,628	47	2,500,262	88	5,444,890
Cyfanswm	81	7,114,154	109	6,181,381	190	13,295,535

*rhybudd: sail isel

Gwnaed dros bum miliwn o ymweliadau ag atyniadau o dan berchnogaeth breifat yng Nghymru yn 2012. Mae hyn yn cymharu ag ychydig dros un filiwn ar gyfer atyniadau a reolir gan Cadw a bron dwy filiwn ar gyfer atyniadau a reolir gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 5.7 Ymweliadau cyfartalog 2012 yn ôl perchenogaeth

Perchnogaeth	Sampl	Ymweliadau cyfartalog 2012	Ymweliadau cyfartalog 2011
Cadw	26	40,535	42,551
Llywodraeth	7*	248,551	239,611
Awdurdod Lleol	52	77,194	75,970
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	17	61,341	66,178
Perchennog preifat neu ymddiriedolaeth	88	61,873	71,244
Cyfanswm	190	489,494	495,554

*rhybudd: sail isel

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gan atyniadau'r Llywodraeth y nifer cyfartalog mwyaf o ymweliadau, gyda bron chwarter miliwn, ar gyfartaledd, yn 2012.


Tabl 5.8 Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl ystod yr ymweliadau a thâl mynediad

Ystod yr ymweliadau	Mynediad am ddim			Mynediad â thâl			Pob atyniad		
	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%	Sampl	Cyfanswm yr ymweliadau 2012	%
0-1,999	10	12,003	-	10	8,047	-	20	20,050	-
2,000-4,999	9*	32,107	-	12	40,604	1	21	72,711	1
5,000-9,999	6*	49,911	1	12	91,965	1	18	141,876	1
10,000-19,999	12	168,653	2	11	167,994	3	23	336,647	3
20,000-49,999	12	332,005	5	24	759,911	12	36	1,091,916	8
50,000-99,999	11	875,218	12	20	1,431,074	23	31	2,306,292	17
100,000-149,999	7*	923,087	13	11	1,313,905	21	18	2,236,992	17
150,000-199,999	6*	976,851	14	6*	990,656	16	12	1,967,507	15
200,000 a throsodd	8*	3,744,319	53	3*	1,377,225	22	11	5,121,544	39
Cyfanswm	81	7,114,154	54	109	6,181,381	46	190	13,295,535	

*rhybudd: sail isel

Adroddodd un ar ddeg atyniad a ymatebodd i'r arolwg ffigurau ymwelwyr o 200,000 neu fwy yn 2012: o'r rhain, roedd wyth yn atyniadau mynediad am ddim ac roedd tri yn atyniadau â thâl - gweler Ffigur 5.8a isod am gyfrannau cymharol o atyniadau fesul ystod o ymweliadau.

Ffigur 5.8a Ymweliadau cyffredinol 2012 yn ôl ystod yr ymweliadau a thâl mynediad



6. Gweithrediadau

6.1 Symudiad refeniw gros

Mae'r adran hon yn drosolwg o refeniw gros, refeniw a gynhyrchwyd oddi wrth dwristiaid, cyflogaeth mewn gweithgareddau twristiaeth, gweithgareddau marchnata a diweddarau / buddsoddi yn y sector atyniadau. Dylid nodi, fel yn adrannau blaenorol o'r ymchwil, na wnaeth yr holl ymatebwyr ateb yr holl gwestiynau, a gadawyd y rhai na wnaethant ymateb allan o'r samplau sy'n berthnasol i'r cwestiynau unigol.

Tabl 6.1 Symudiad refeniw gros 2012/2011 (samplau gwahanol)

Symudiad refeniw gros	2012/2011	2011/2010
Sampl	104	77
I lawr	28.8%	41.5%
Tebyg	44.2%	16.9%
I fyny	26.9%	41.6%

Am ychydig dros 44% o atyniadau, roedd y refeniw gros ar lefel debyg yn 2012 o'i gymharu â 2011. Adroddodd bron 29% leihad mewn refeniw gros, tra bod bron 27% wedi adrodd cynnydd.

Tabl 6.2 Symudiad refeniw gros cyfartalog 2012/2011 (yr un sampl)

Symudiad refeniw gros	2012/2011	2011/2010
Sampl	67	
I lawr	50.7%	17.9%
Tebyg	22.4%	35.8%
I fyny	26.9%	46.3%

Gan edrych ar refeniw gros tebyg-i-debyg atyniadau a ymatebodd yn y ddwy flynedd 2011 a 2012, adroddodd cyfran uwch iddynt weld lleihad mewn refeniw gros yn 2011/12 (51%) o'i gymharu â'r rhai a welodd gynnydd (27%).

Tabl 6.3 Symudiad refeniw cyfartalog 2012/2011 yn ôl band

Band symudiad refeniw gros	Sampl	2012/2011 %	2011/2010
Dros -50% o leihad	0	0%	0.0%
Lleihad -21% i -50%	11	12.5%	2.1%
Lleihad -11% i -20%	9*	10.2%	5.2%
Lleihad -1% i -10%	16	18.2%	12.4%
0% (dim newid)	28	31.8%	43.3%
Cynnydd 1% i 10%	15	17.0%	22.7%
Cynnydd 11% - 20%	5*	5.7%	10.3%
Cynnydd 21% - 50%	4*	4.5%	2.1%
Dros 50% o gynnydd	0	0%	2.1%
Cyfanswm	88	-2.8%	+2.1%

*rhybudd: sail isel

Ar y cyfan, roedd lleihad cyfartalog o refeniw gros yn 2012 o -2.8%, o'i gymharu â 2011 pan oedd cynnydd cyfartalog o 2.1%.

Tabl 6.4 Symudiad refeniw cyfartalog 2012/2011 yn ôl categori

Categori	Sampl	2012/2011	2011/2010
Eiddo hanesyddol	4*	-6.8%	+1.1%
Amgueddfa neu oriel gelf	19	+0.9%	+1.7%
Atyniad diwydiannol neu grefft	8*	-3.9%	-0.1%
Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	19	-9.7%	+2.6%
Atyniad bywyd gwyllt	3*	+1.0%	-0.7%
Atyniad thema, parciau a chanolfannau hamdden	0	-	-3.7%
Rheilffordd neu dramffordd	7*	-2.9%	+8.9%
Cyfanswm	60	-4.04%	+2.1%

*rhybudd: sail isel

Ymhlith sampl yr atyniadau a adroddodd symudiad i fyny / i lawr roedd y rhai yn y categori *parc gwledig, gardd, ac atyniad naturiol arall* yn fwy tebygol o adrodd cwmp, gyda chyfartaledd o bron -10%.

6.2 Refeniw cyfartalog yr ymwelydd (£) 2012

Gofynnwyd i weithredwyr atyniadau nodi refeniw cyfartalog (yn cynnwys TAW) fesul ymwelydd, h.y. cyfanswm y gwariant fesul categori wedi'i rannu â chyfanswm yr ymwelwyr â'r atyniad yn gyffredinol. Darparodd 91 o atyniadau ddadansoddiad o wybodaeth o'r fath.

Nodiadau i ddeall y refeniw cyfartalog:

- Caiff refeniw cyfartalog ei gyfrif drwy adio cyfanswm y refeniw cyfartalog a ddarparwyd gan weithredwyr o fewn pob categori a rhannu'r canlyniadau â nifer yr atyniadau a ymatebodd.
- Mae'r gwariant 'arall' yn cynnwys gweithdai, llogi, hyfforddiant ac ati.

Noder: ni wnaeth nifer o atyniadau ddarparu'r lefel hon o wybodaeth ac felly mae rhai meintiau sampl yn yr adran hon yn fach.

Tabl 6.5 Refeniw ymwelydd cyfartalog fesul atyniad yn ôl categori

Rhanbarth		Sa mpl	Tâl Mynedi ad	Rhoddion	Arlwyo	Manwerthu	Maes parcio	Arall	Cyfanswm
Eiddo hanesyddol	Am ddim	2*	£0.00	£0.25	£0.00	£0.50	£0.00	£0.75	£1.50
	Â thâl	5*	£3.36	£0.06	£0.90	£1.49	£0.00	£5.81	£11.61
Amgueddfa / oriel	Am ddim	19*	£0.00	£0.42	£0.05	£0.79	£0.05	£0.00	£1.31
	Â thâl	10	£2.44	£1.63	£0.33	£1.19	£0.00	£0.20	£5.78
Diwydiannol / crefft	Am ddim	4*	£0.00	£0.13	£1.64	£3.94	£0.00	£0.16	£5.86
	Â thâl	5*	£6.92	£0.00	£2.96	£1.75	£0.00	£0.06	£11.69
Parc gwledig neu ardd	Am ddim	8*	£0.00	£0.14	£1.94	£3.03	£0.46	£0.65	£6.13
	Â thâl	13	£3.58	£0.16	£1.32	£1.64	£0.00	£0.13	£6.84
Bywyd gwyllt	Am ddim	2*	£0.00	£0.13	£0.88	£0.29	£0.00	£0.00	£1.29
	Â thâl	5*	£6.33	£0.04	£2.64	£1.61	£0.00	£0.24	£10.87
Thema	Am ddim	-	-	-	-	-	-	-	-
	Â thâl	1**	-	-	-	-	-	-	-
Rheilffordd neu dram	Am ddim	1*	£0.00	£0.00	£0.00	£0.39	£0.00	£1.93	£2.32
	Â thâl	8*	£9.77	£0.09	£1.81	£1.58	£0.05	£0.69	£13.90
Cyfanswm cyfartaledd	Am ddim Â thâl	36 47	£0.00 £5.01	£0.29 £0.42	£0.69 £1.44	£1.58 £1.49	£0.13 £0.01	£0.25 £0.92	£2.93 £9.26

*rhybudd: sail isel

** Maint y sampl yn rhy fach a byddai'n torri ar gyfrinachedd

